**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
**Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol**

**Gofynion Cofnodi Cyffredinol ar gyfer Asesu Oedolion, Plant a Gofalwyr**

**Dolenni**
Cod Ymarfer ar gyfer Asesu Anghenion Unigolion (Rhan 3):
http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3cy.pdf

Cod Ymarfer ar gyfer Diwallu Anghenion (Rhan 4):
http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4cy.pdf

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015:
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1305/pdfs/wsi_20151305_mi.pdf

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015:
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1578/pdfs/wsi_20151578_mi.pdf

## 1 Y Set Ddata Graidd Sylfaenol Genedlaethol

Gweler y Cod Ymarfer ar gyfer Asesu Anghenion Unigolion (paragraffau 56-60) am ragor o wybodaeth

Y Set Ddata Graidd

Rhif GIG
Teitl
Cyfenw
Enw(au) cyntaf
Enw a ffafrir
Cyfeiriad a chod post
Dyddiad geni
Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Rhyw
Enw a chyfeiriad meddygfa
Enw a chyfeiriad ysgol *(ar gyfer plant)*
Galwedigaeth
Pa asesiadau eraill sydd wedi'u cynnal gan asiantaethau eraill?

Dewis o ran Iaith / Dull cyfathrebu / Gofynion hygyrchedd
Enw(au) gofalwr(wyr) / Pobl â Chyfrifoldeb Rhiant
Perthynas
Manylion cyswllt gofalwr(wyr) / Pobl â Chyfrifoldeb Rhiant
A yw'r plentyn hwn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?
Manylion cyswllt y Cydgysylltydd Asesiadau Arweiniol (*yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad, ac i bwy mae'n gweithio*)
Manylion cyswllt y Cydgysylltydd Gofal Arweiniol (*yr unigolyn sy'n trefnu unrhyw ofal a/neu gymorth sydd ei angen, ac i bwy mae'n gweithio*)
Gwybodaeth wedi'i chymryd gan (enw) (*os yw'n wahanol i'r Cydgysylltydd Asesiadau Arweiniol*)
Swydd
Sefydliad
Dyddiad

**Nodyn – mae modd casglu rhagor o ddata craidd fel sy'n berthnasol i amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn ee rhif achos Awdurdod Lleol (os yw'n berthnasol) rhif Fisâu a Mewnfudo y DU (os yw'n berthnasol) a data iechyd ehangach perthnasol ar gyfer pobl hŷn.**[1]

## 2 Gwybodaeth ychwanegol sydd i'w chasglu

Gofalwyr

- A yw'r unigolyn sy'n cael ei asesu yn ofalwr?
- Rôl gofalwyr di-dâl, rhieni, partneriaid ac aelodau eraill o'r teulu yng ngofal yr unigolyn
- Os oes gan yr unigolyn ofalwr, a yw'n fodlon ac yn gallu cyfrannu at ei ofal a'i gefnogaeth?
- A yw'r gofalwr/wyr wedi cael cynnig asesiad?

Plant

- A yw'r plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio ac a oes camau wedi'u cymryd?
- A yw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?
- Cadarnhad bod y plentyn wedi'i weld (os na, nodwch pam)
- Cadarnhad bod y plentyn wedi'i weld ar ei ben ei hun (os na, nodwch pam)

Anghenion Unigol Ehangach

- A yw'r unigolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso ac a oes camau wedi'u cymryd?
- Cadarnhad bod y Gymraeg wedi'i chynnig yn weithredol fel iaith gyfathrebu
- A yw'r unigolyn yn ystyried ei hun yn anabl?
- A yw'n dymuno bod ar y gofrestr anabledd perthnasol? (nodwch y dyddiad y cafodd ei gynnwys ar y gofrestr)
- A yw'r unigolyn yn ddall / byddar?
- Gallu meddyliol[2] yr unigolyn sy'n cael ei asesu
- Ystyriaethau o ran trefniadau diogelu rhag colli rhyddid[3]

Proses

- Ai asesiad cyntaf yw hwn, neu ailasesiad (ee yn dilyn adolygiad)?
- Pwy ofynnodd am yr asesiad? (ee yr unigolyn, gofalwr yr unigolyn, rhiant yr unigolyn)
- A yw asesiadau'n cael eu cynnal ar wahân, yn erbyn dymuniadau teuluoedd, gofalwyr a phobl sy'n derbyn gofal? (Os ydynt, eglurwch sail y penderfyniad)

---

[1] Nid yw'n ofynnol i'r eitemau hyn gael eu cynnwys yn y Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion, ond gall awdurdodau lleol eu cynnwys yn y data craidd os yw'n berthnasol.

[2] Cod ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005 http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/744/Code%20of%20Practice%20W.pdf

[3] Cod ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid : http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/744/Code%20of%20Practice%20W1.pdf

- A yw'r unigolyn wedi gwrthod cynnig am asesiad o'r angen? Nodwch y dyddiad. Os yw asesiad yn cael ei gynnal pan fo'r unigolyn wedi'i wrthod, eglurwch y rhesymau dros hyn (gweler paragraffau 107-115 y Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion am gyfarwyddyd)
- Caniatâd i'r wybodaeth a gasglwyd at ddibenion yr asesiad gael ei rannu rhwng yr ymarferwyr perthnasol a'r dyddiad – Noder – **Mae'n rhaid egluro'r rhesymau dros hyn yn glir** (gweler paragraffau 101-106 y Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion am gyfarwyddyd)
- Cadarnhad bod yr unigolyn yn cytuno i'r hyn sydd wedi'i gofnodi (gallai hyn gynnwys nodyn o farn wahanol yr ymarferydd a'r unigolyn, y teulu ac ati)
- Cadarnhad bod copi o'r asesiad wedi'i gynnig i'r unigolyn neu'i deulu – *Noder – Mae'n rhaid cynnig copi o'r asesiad a dylid ei ddarparu.*

## 3 Pum elfen yr asesiad

Gweler baragraffau 61-65 ac Atodiad 1 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Asesu Anghenion Unigolion am ganllawiau.

**Fel rhan o'r sgwrs â'r unigolyn, dylai'r ymarferydd:**

- asesu a rhoi sylw i amgylchiadau'r unigolyn
- rhoi sylw i'w ganlyniadau personol
- asesu a rhoi sylw i unrhyw rwystrau rhag sicrhau'r canlyniadau hynny
- asesu a rhoi sylw i unrhyw risgiau i'r unigolyn neu i unrhyw un arall os na chaiff y canlyniadau hynny eu sicrhau
- asesu a rhoi sylw i gryfderau a galluoedd yr unigolyn.

Gweler ystyriaethau ychwanegol o fewn y cod mewn perthynas ag:
Oedolion – paragraffau 66-67
Plant – paragraffau 68-79 ac Atodiad 2 (yr egwyddorion wrth wraidd asesu plant)
Gofalwyr – paragraffau 80-84

## 4 Camau gweithredu i fodloni canlyniadau personol

Y camau i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phobl eraill i helpu'r unigolyn sicrhau'r canlyniadau hynny (gan gynnwys camau i'w cymryd gan yr unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu a/neu ei ofalwr).

Cofnodwch sgôr o deimladau'r unigolyn mewn perthynas â'i ganlyniadau. Mae'n rhaid i'r sgôr gael ei nodi ar raddfa o 0 i 10; 0 yw'r sefyllfa waethaf y mae'r unigolyn yn teimlo y gallai fod ynddi a 10 yw'r gorau. Bydd y sgôr hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail i adolygiadau'r asesiad a'r cynllun gofal.

Gweler templed enghreifftiol isod ar gyfer casglu'r wybodaeth hon:

| Canlyniad | Canlyniadau Llesiant Cenedlaethol | Sgôr gwaelodlin | Gweithred | Gan Bwy | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

## 5 Datganiad am sut mae'r camau gweithredu a nodwyd yn cyfrannu at y canlyniadau personol

Sut fydd y camau gweithredu a nodwyd yn helpu i sicrhau'r canlyniad personol neu ddiwallu'r anghenion ddaeth i'r fei yn yr asesiad? Mae hyn yn berthnasol i'r anghenion hynny fydd yn cael eu diwallu trwy ddarparu gofal a chymorth a'r rheini sy'n cael eu diwallu drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol, darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, neu drwy ryw fodd arall.

## 6 Canlyniadau'r Asesiad

Gweler baragraffau 116-122 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Asesu Anghenion Unigolion am ganllawiau.
Mae'r meini prawf cymhwyster ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr yn cael eu nodi yn y Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 a'r Cod Ymarfer ar gyfer Diwallu Anghenion.

**Ar gyfer pob angen a nodwyd, cofnodwch ba rai o'r canlyniadau isod sy'n berthnasol:**

1. nid oes anghenion gofal a chymorth i'w diwallu
2. mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a allai gynnwys asesiadau mwy arbenigol
3. gall anghenion gael eu diwallu drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy
4. gall anghenion gael eu diwallu drwy ddarparu gwasanaethau ataliol
5. gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn ei hun (gyda neu heb gymorth pobl eraill)
6. gall materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau personol, neu ddiwallu'r anghenion
7. dim ond trwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gellir diwallu'r anghenion **(anghenion yn gymwys)**
8. mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn yr unigolyn rhag cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu wynebu risg o ddioddef y rhain neu, os yw'n blentyn, unrhyw niwed neu risg o niwed o'r fath.